# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)-03-11 : Papur 1**

## Diweddariad ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar adroddiad y pwyllgor, “Materion sy’n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru, eu teuluoedd a’r cymunedau y maent yn byw a gweithio ynddynt” gan Carl Sargeant AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### 4 Chwefror 2011

### Crynodeb Gweithredol

Ym mis Ionawr 2009 ymatebodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd i’r argymhellion a roddwyd gerbron gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (PCC) yn ei adroddiad “Materion sy’n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru, eu teuluoedd a’r cymunedau y maent yn byw a gweithio ynddynt” a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008. Cafodd llawer o’r argymhellion eu derbyn gan eu bod yn clymu gyda pholisïau cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru neu rai i’r dyfodol.

Gwrthodwyd rhai gan y teimlid naill ai nad oeddent yn syrthio o fewn maes gorchwyl Llywodraeth Cynulliad Cymru neu fod yna ddewis arall addas eisoes yn cael ei weithredu.

Ym mis Ionawr 2010, rhoddais ddiweddariad ysgrifenedig i’r PCC yn amlinellu’r cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad. Un o’r prif gyfryngau ar gyfer datblygu’r gwaith ar yr argymhellion hyn fu Fforwm amlasiantaethol yr Ymfudwyr a sefydlwyd ac oedd yn cael ei gadeirio gan fy rhagflaenydd, Dr Brian Gibbons AC, ac mae’n dda gennyf ddweud wrthych fy mod yn dal i gadeirio’r fforwm hwn.

Yr wyf yn falch i adrodd bod cynnydd wedi ei wneud gyda golwg ar gyflawni’r argymhellion allweddol a bod 9 o’r argymhellion wedi eu gweithredu’n llawn, ac felly ni fydd diweddariadau yn y dyfodol yn cynnwys diweddariadau ar yr argymhellion hyn.

### Caiff yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad eu hegluro isod:

1. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n datblygu gwefan amlieithog a ddiweddarir yn rheolaidd â dolenni i gyngor sydd ar gael trwy wefannau cyrff perthnasol y sector cyhoeddus, cyrff rheoleiddio a chyrff y llywodraeth. Byddai hon hefyd yn darparu dolen i ffynonellau gwybodaeth

ddibynadwy a ddarperir mewn ieithoedd mae gweithwyr mudol yn eu siarad. Pwrpas y wefan hon fyddai cyfeirio defnyddwyr at ffynonellau gwybodaeth gyffredinol a gwybodaeth â ffocws lleol yn hytrach na darparu'r wybodaeth yn uniongyrchol, gan weithredu fel 'both wybodaeth'.

Lansiwyd pecyn diwygiedig 'Deall Cymru' yn 2010. Mae hwn yn darparu gwybodaeth nid yn unig ar gyfer ymfudwyr a'u teuluoedd ond hefyd ar gyfer Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid ar bob agwedd o fyw o ddydd i ddydd yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth ddibynadwy a hefyd yn cysylltu â chyrff rheolaethol a llywodraethol perthnasol yn y sector cyhoeddus, er mwyn i ddefnyddwyr fedru cael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf drwy ddefnyddio gwefannau'r darparwyr. Mae'r pecyn wedi ei rannu'n adrannau, yn cynnwys iechyd, addysg, tai etc. Mae'r copi caled o faint cludadwy ac mae mewn ffeil fodrwy er mwyn galluogi'r defnyddiwr i roi blaenoriaeth i'r adrannau y mae arno eu heisiau wrth iddo fynd drwy'r cyfnod o setlo i mewn yn ei gymuned newydd. Mae'r pecyn ar gael mewn copi caled a hefyd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhoddodd fy Swyddogion brawf ar becyn Deall Cymru gyda gweithwyr mudol a'u teuluoedd cyn ei gyhoeddi ac mae eu sylwadau wedi eu cynnwys yn y fersiwn terfynol.

**Cwblhawyd.**

2. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu'r 'both wybodaeth' hon trwy: lywodraethau a swyddfeydd is-genhadon gwledydd tarddiad gweithwyr mudol yng Nghymru; pwyntiau mynediad i Gymru; sefydliadau'r sector cyhoeddus; cymdeithasau a busnesau gweithwyr mudol; a phecyn 'Croeso i Gymru' wedi'i ddiweddaru.

Cyfeiriwch at argymhelliad 1, os gwelwch yn dda. Mae Deall Cymru ar gael mewn copi caled mewn nifer o ieithoedd ac mae wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd. Bydd swyddogion yn trafod gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU, y Swyddfa Gartref a Swyddfeydd Is-genhadau er mwyn sicrhau bod pecynnau ar gael yn Llysgenadaethau / Swyddfeydd Is-genhadau Prydain dramor.

3. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu eu pecynnau croeso eu hunain, y gellid creu dolen rhyngddynt a gwefan amlieithog Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r pecynnau croeso hyn gynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a gwybodaeth berthnasol arall fel bancio.

Cyfeiriwch at argymhellion 1 a 2, os gwelwch yn dda; gobeithio y bydd pecyn Deall Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anogaeth i Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu fersiynau lleol eu hunain i ategu pecyn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu dealltwriaeth o wybodaeth sy'n bodoli am gymwysterau cyfatebol, ac yn hybu mynediad ati, yn enwedig ymhlith gwasanaethau cynghori, grwpiau gwirfoddol, cyflogwyr a sefydliadau perthnasol eraill.

Cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'i strategaeth gweithredu ar gyfer Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), ddeunyddiau cyfathrebu ar gyfer Dysgwyr Ifanc, Dysgwyr sy'n Oedolion, Cyflogwyr ac ymarferwyr Cymorth ac Arweiniad ynghylch Gyrfaoedd ac mae wedi llunio cytundebau gyda chyrff sy'n bartneriaid i godi ymwybyddiaeth. Fel rhan o'u dull cynhwysol arferol, maent yn dymuno gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i godi ymwybyddiaeth o FfCChC ymhlith y sefydliadau / cynghorwyr sy'n gweithio gydag Ymfudwyr, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghymru ac yn rhoi cyngor iddynt.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru i ddarparu'r canlynol:

- Pedair seminar – un ym mhob un o'r ardaloedd gwasgaru i hysbysu partneriaid sy'n gweithio gyda'u grŵp cleientiaid am ddiwygio cymwysterau galwedigaethol a'r FfCChC.
- Cyfieithu taflenni'r Dysgwyr Ifanc a'r Dysgwyr sy'n Oedolion i chwech o ieithoedd (dwyieithog Arabeg, Mandarin, Ffarsi, Tigrinya, Cwrdeg-Sorani a Somali) a pheri eu bod ar gael drwy gyfrwng gwefan Cyngor Ffoaduriaid Cymru.
- Caiff taflenni eu cyfieithu hefyd i Bwyleg a Tsieceg a'u gosod ar wefan Cyngor Ffoaduriaid Cymru, gwefan FfCChC a gwefannau eraill (fel y cynghorir) lle y byddai gweithwyr mudol a ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn naturiol yn ymweld i gael gwybodaeth.

Disgwylir y cwblheir y gwaith hwn erbyn Mehefin/Gorffennaf 2011

5. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sefydlu fforwm, gan gynnwys Sefydliadau Addysg Uwch, Colegau Addysg Bellach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a rhanddeiliaid busnes sydd â diddordeb, i benderfynu ar ffyrdd y gall gweithwyr mudol ddefnyddio'u cymwysterau'n fwy effeithiol.

Gwelwch yr ymateb i Argymhelliad 4, os gwelwch yn dda

6. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i drafod ag UK NARIC, â'r bwriad o alluogi cyflogwyr llai i ddefnyddio cronfa ddata UK NARIC am bris gostyngol, o bosibl trwy system ar y cyd.

Mae'r dirwasgiad economaidd, a'r galwadau a wnaed o ganlyniad ar yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ers hynny,

wedi golygu na chafodd y cam hwn ei weithredu. Ar adeg pan mae llawer o fusnesau wedi bod yn lleihau o ran maint, nid yw'n rhyfedd nad yw rhanddeiliaid na chyflogwyr wedi gofyn i APADGOS fynd i'r afael â'r mater hwn. Wrth symud ymlaen, credwn fod argymhelliad gwreiddiol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn parhau'n berthnasol mewn egwyddor.

Yng ngoleuni'r cyd-destun sydd wedi newid, mae APADGOS yn awr yn awgrymu ymgymryd ag ymarferiad cwmpasu byr gyda rhanddeiliaid allweddol – gan ganolbwyntio ar gyrff cynrychioli cyflogwyr megis Ffederasiwn y Busnesau Bychain (FfBB) Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru a Siambrau Masnach – i asesu'r galw posibl a chanfod pa rôl, os un o gwbl, y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chyflawni o ran dwyn ynghyd gyrff aelodaeth gyda diddordeb cyffredin mewn defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael gan UKNARIC. Caiff yr ymarferiad cwmpasu cychwynnol hwn ei gwblhau erbyn mis Ebrill. Cyflwynir cyngor ar y ffordd i weithredu yn y dyfodol i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau erbyn Mehefin 2011.

7. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaeth sy'n nodi graddau'r angen am hyfforddiant yr iaith Saesneg ymhlith gweithwyr mudol, ac yn llunio cynllun gweithredu sy'n diwallu'r anghenion hyn. Dylai hwn fanylu ar amserlen ar gyfer cyflenwi hyfforddiant yr iaith Saesneg, a chynllun gweithredu cysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi darparu hyfforddiant yn y Saesneg. Sefydlodd APADGOS hefyd Grŵp Ymgynghorol Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Cylch gorchwyl y Grŵp oedd sefydlu dull strategol o ddatblygu darpariaeth ESOL yn barhaus, er mwyn gwella safonau, ac ateb anghenion dysgwyr ac athrawon ESOL yn well. Y nodau oedd:

- Argymell gweithgareddau oedd yn flaenoriaeth i wella ansawdd a safonau mewn dysgu ac addysgu ESOL.

.

- Nodi ffyrdd o weithredu argymhellion allweddol adolygiad Estyn o ddarpariaeth ESOL yng Nghymru ac adolygiad GHK o ESOL yng Nghymru, yn ogystal ag argymhellion o strategaethau eraill sy'n berthnasol i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Adeiladu ar waith y Prosiect Cenedlaethol blaenorol i Gefnogi ESOL, a'r grŵp Ymgynghorol ar Ddatblygiad ESOL.

Cynhaliwyd seminar ymgynghori ar gyfer rhanddeiliaid ym mis Hydref 2010 er mwyn cytuno ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu ESOL yng Nghymru. Trefnwyd y seminar ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Grŵp Ymgynghorol ESOL.

Cynigir cymorth ariannol i gyflogwyr gweithwyr mudol drwy gynlluniau Cronfa Ddysgu Undeb Cymru (WULF) ac Adduned y Cyflogwr.

Rhaglen Adduned Cyflogwr y Sgiliau Sylfaenol yw'r ffordd y mae cyflogwyr ar hyn o bryd yn ymrwymo i hyfforddi eu staff mewn llythrennedd, rhifedd a/neu ESOL ar lefel un neu is.

Cynigiwyd ehangu'r Rhaglen Adduned Cyflogwr bresennol yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, er mwyn i'r cyflogwyr eu hunain gydnabod yr angen am hyfforddiant ESOL a chymryd camau i wella sgiliau iaith eu gweithwyr. Fodd bynnag, unwaith y mae ymrwymiad yr Adduned wedi ei wneud, bydd cyflogwr (gyda chymorth a chyngor) yn edrych ar ofynion ac anghenion y sgiliau sylfaenol, gan gynnwys rhifedd, llythrennedd a sgiliau iaith Saesneg, yn ei fusnes ef/hi er mwyn llunio cynllun gweithredu. Mae tîm Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad sut i lunio'r cynlluniau gweithredu a bydd yn cefnogi darpariaeth ESOL fel rhan o gynllun ehangach i wella holl anghenion sgiliau sylfaenol y gweithwyr.

Mae APADGOS yn ystyried bod gan gyflogwyr sydd wedi dewis cyflogi gweithwyr mudol gyfrifoldeb hefyd i helpu'r gweithwyr hynny i feistroli'r sgiiliau iaith Saesneg y mae arnynt eu hangen i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae ganddynt ran i'w chwarae yn canfod anghenion hyfforddiant iaith Saesneg eu gweithlu.

Mae gan APADGOS brofion llythrennedd a rhifedd ar gael ar gyfer yr holl ddarparwyr dysgu. Maent yn adolygu ac yn diwygio'r profion hynny ac yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu prawf ar-lein ar gyfer ESOL.

8. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi sefydliadau i wneud yn fawr o sgiliau ieithyddol presennol eu staff ar y rheng flaen, er mwyn gwella'r cyfathrebu â gweithwyr mudol a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys:

    a) darparu cyfarwyddyd ar gynnal archwiliadau sgiliau ieithyddol i alluogi sefydliadau i ddarganfod pa adnoddau iaith allai fod yn bodoli ymhlith eu staff; a,
    b) darparu cyfarwyddyd ar ddatblygu staff sy'n meddu ar sgiliau ieithyddol penodol.

Nid ydym yn rhagweld rôl uniongyrchol i APADGOS o ran cynghori cyflogwyr ynglŷn â defnyddio sgiliau iaith presennol eu gweithwyr. Gallai'r term "Cyflogwyr" o bosibl gynnwys y rheiny sydd mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Bydd APADGOS yn parhau i annog a galluogi cyflogwyr i lofnodi Adduned y Cyflogwr a bydd, fel rhan o'r ymdrech ehangach i wella rhifedd, llythrennedd a sgiliau iaith yr holl weithwyr, yn cefnogi cyflwyno darpariaeth ESOL yn y gweithle.

At hynny, dylai cyflogwyr gyfeirio gweithwyr sydd angen cymorth gyda'r iaith Saesneg at ddarparwyr ESOL lleol neu at Gynrychiolwyr Dysgu Undeb er mwyn i'w hanghenion dysgu gael eu hasesu ac i gymorth priodol gael ei ganfod.

9. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymchwilio i ffurfiau amgen, hyblyg ar hyfforddiant iaith, gan gynnwys defnyddio technoleg.

Ni chomisiynwyd ymchwil bellach i'r pwnc hwn ers Adolygiad ESOL yng Nghymru (2008). Mae anghenion ymchwil yn y dyfodol, mewn perthynas â darpariaeth ESOL ac anghenion hyfforddiant iaith mwy cyffredinol, wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel rhan o gynllunio rhaglen ymchwil APADGOS ar gyfer 2011/12.

10. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ceisio cytuno â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Busnesau Bach a'r Undebau Llafur ar God Ymddygiad gwirfoddol yn ymwneud â recriwtio a chyflogi llafur mudol, ac annog cyflogwyr i'w lofnodi. Byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynd ati'n bositif i hybu llofnodwyr i'r cod hwn.

Gan nad yw Cyfraith Cyflogaeth wedi ei datganoli, nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru liferau deddfwriaethol i orfodi cod a chytunwyd mewn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr cyflogwyr, Undebau Llafur a Fforwm yr Ymfudwyr mai'r ffordd orau ymlaen fyddai paratoi Pecyn Offer yn rhoi cyngor i gyflogwyr a gweithwyr mudol hefyd.

Cyflawnwyd gwaith cwmpasu cychwynnol lle y cynhaliwyd trafodaethau gyda chynrychiolwyr cyflogwyr i drafod datblygu'r Pecyn Offer ac i ofyn am eu barn. Roedd y cynrychiolwyr hyn o blaid Pecyn Offer ymarferol a defnyddiol i gyflogwyr a gweithwyr mudol.

Bwriedir i'r pecyn offer roi arweiniad ymarferol a defnyddiol i gyflogwyr, yn egluro eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr ymfudwyr a hefyd yn rhoi dolennau cyswllt i wefannau lle y gallant gael gwybodaeth bellach fwy manwl. Bydd hefyd yn rhoi manylion hawliau ymfudwyr a'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan eu cyflogwyr.

Cytunwyd ar fersiwn drafft gan Fforwm yr Ymfudwyr ac mae fy Swyddogion ar hyn o bryd wrthi'n gwneud trefniadau i ymgynghori ymhellach a byddant hefyd yn gwneud trefniadau i'r Pecyn Offer gael ei brofi gan weithwyr mudol. Ar ôl yr ymgynghoriad caiff y Pecyn Offer ei ddiwygio a'i ddiweddaru ac wedyn byddaf yn cyflwyno'r fersiwn terfynol i Fforwm yr Ymfudwyr iddynt ei ystyried a'i gymeradwyo yn nes ymlaen eleni.

11. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU a sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol i ymestyn cylch gorchwyl yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri

Rydym wedi cysylltu ag Awdurdod Trwyddedu'r Gangfeistri (GLA) ac wedi meithrin perthynas waith dda â hwy. Mynychodd cadeirydd y GLA gyfarfod Fforwm yr Ymfudwyr ym mis Mai 2010 a rhoddodd gyflwyniad i aelodau'r Fforwm ar waith y GLA yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol.

Yn dilyn Fforwm yr Ymfudwyr, ar gais Cadeirydd y GLA, hwylusodd fy swyddogion gyfarfod rhwng y GLA a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu gweithio agosach yng Nghymru. Mae'r GLA ar hyn o bryd yn gweithio gyda Rheolwyr Llywodraeth Leol ar Femorandwm Dealltwriaeth (MOU). Bydd yr MOU hwn yn ymdrin â meysydd a gynrychiolir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nod yr MOU yw canfod meysydd o gytundeb ar gyfnewid gwybodaeth ac ar gefnogi gweithrediadau, gan gynnwys, lle bo'n briodol, weithrediadau ar y cyd, yn amodol ar byrth cyfreithiol presennol.

Ym Mehefin 2010 sicrhaodd y GLA ei euogfarn gyntaf yng Nghymru.

12. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU, â'r bwriad o sefydlu 'Comisiwn Cyflogaeth Deg' i gwmpasu'r pedair asiantaeth orfodi sy'n bodoli, gyda chylch gorchwyl estynedig i gynnwys yr holl hawliau cyflogaeth sylfaenol. Byddai gan y Comisiwn hwn y pŵer, lle bo angen, i wneud hawliad i Dribiwnlys Cyflogaeth ar ran gweithiwr, a gorfodi dyfarniad.

Mewn ymdrech i sicrhau cysylltiad gwell a mwy o rannu gwybodaeth gydag asiantaethau a rhwng asiantaethau yng Nghymru, cadeiriodd fy rhagflaenydd gyfarfod o'r prif asiantaethau gorfodi yng Nghymru tua diwedd 2009. Canlyniad y cyfarfod hwn oedd y canlynol:

- Aelod o'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn dod yn aelod o Fforwm yr Ymfudwyr;
- Cadeirydd y GLA yn bresennol ac yn rhoi cyflwyniad i Fforwm yr Ymfudwyr ar waith y GLA a chyfarfod diweddarach rhwng y GLA a CLlLC i feithrin cysylltiadau a gweithio'n agosach; a,
- Cyflwyniad i aelodau'r Fforwm ar agwedd y Gweithgor Iechyd a Diogelwch tuag at amddiffyn iechyd a diogelwch gweithwyr mudol.

13. Bod Fforwm Pobl Fudol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag amodau byw gwael i weithwyr mudol, gan ymgysylltu â'r Gweinidog dros Dai.

Mae swyddogion wedi cysylltu â phanel technegol Penaethiaid Iechyd Amgylcheddol Cymru Gyfan ar faterion cysylltiedig â gweithwyr mudol a Thai Amlfeddiannaeth (HMO). Bu'r panel technegol yn ddiweddar yn trafod cynnwys adroddiad ymchwil, a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Dyfnaint ar

weithwyr mudol a llety yn y sector rhentu preifat, yn ei gyfarfod ym mis Medi 2010.

Cadarnhâi pob Awdurdod Lleol yn y cyfarfod, a fynychwyd hefyd gan swyddogion tai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fod niferoedd y gweithwyr mudol oedd yn byw mewn tai ar rent yn y sector preifat yn eu hardaloedd wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf a bod y duedd at i lawr yn y niferoedd yn parhau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud ag ansawdd a rheolaeth sector y tai preifat ar rent yn fwy cyffredinol fel rhan o weithredu ei Strategaeth Dai Genedlaethol *Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru*.

14. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU ynglŷn ag adolygu system fudd-daliadau'r DU, ar sail egwyddor darparu mynediad tebyg at gymorth budd-daliadau i weithwyr mudol o aelod-wladwriaethau A8 ac A2 yr UE â gweithwyr eraill o aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Bu Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n trafod gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a chawsant ar ddeall fod gan weithwyr mudol o wladwriaethau A8 ac A2 yr Undeb Ewropeaidd yr un mynediad at gronfeydd cyhoeddus â gweithwyr mudol o wladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) gan na chaniateir i Lywodraeth y DU wrthwahaniaethu ar sail cenedl. Mae'r gwahaniaeth sy'n codi i weithwyr mudol A8 ac A2 yn y mynediad sydd ganddynt at y farchnad lafur, sy'n fesur trosiannol a ganiateir dan amodau'r Cytuniadau Derbyn.

Mae gan **bobl o AEE sy'n gweithio** fynediad at gronfeydd cyhoeddus ac efallai y bydd ganddynt hawl i fudd-daliadau cysylltiedig ag incwm mewn gwaith (Budd-dal tai/Budd-dal treth cyngor). Os byddant yn rhoi'r gorau i weithio ac yn aros yn y farchnad lafur, efallai y bydd ganddynt hawl i lwfans ceisio gwaith seiliedig ar incwm.

Mae gan **bobl o wledydd UE8 (A8) ac UE2 (A2)** statws gweithwyr tra byddant yn gweithio ac maent wedi eu cofrestru yn y Cynllun Cofrestru Gweithwyr neu'r Cynllun Awdurdodi Gweithwyr. Os byddant yn rhoi'r gorau i weithio, efallai y cânt gadw eu statws gweithiwr a hawlio lwfans ceisio gwaith seiliedig ar incwm ond dim ond os byddant wedi bod yn gweithio ac wedi eu cofrestru am 12 mis o leiaf ac os ydynt yn edrych am waith.

Nid oes gan **bobl o AEE, yn cynnwys pobl UE8 ac UE2, nad ydynt mewn gwaith nac yn edrych am waith** statws gweithiwr ac yn gyffredinol nid oes ganddynt hawl i fudd-daliadau cysylltiedig ag incwm. Disgwylir iddynt eu cynnal eu hunain tra byddant yn y DU. Rhaid iddynt feddu ar ddigon o adnoddau i'w cynnal hwy eu hunain ac aelodau eu teulu er mwyn osgoi bod yn faich ar y wlad.

Yn gyson â thelerau'r Cytuniadau Derbyn, ni fydd pobl o UE8 neu UE2 fydd yn colli eu swyddi o fewn 12 mis o fod yn y DU yn gymwys i dderbyn budd-daliadau. Fodd bynnag, dan reolau'r UE lle bo'r gweithiwr wedi gweithio a thalu cyfraniadau yn y DU, efallai y bydd modd cymryd yswiriant tramor i ystyriaeth i'w alluogi i ateb amodau cyfraniadau'r DU, e.e. lwfans ceisio gwaith.

Nid yw'r Cytuniadau Derbyn yn caniatáu cyfyngu ar fynediad i'r farchad lafur (ac felly i'r system fudd-daliadau) ond am gyfnod cyfyngedig yn unig: **hyd Ebrill 2011 i bobl UE-8; a hyd 2014 i bobl UE-2. Wedi hynny, bydd gan bobl UE-8 / UE-2 yr un mynediad at system fudd-daliadau'r DU â phobl o aelod-wladwriaethau eraill AEE.**

## Cwblhawyd.

15. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'u cymheiriaid mewn gwledydd eraill.

Mae APADGOS yn parhau i gefnogi a datblygu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) a'r Dimensiwn Rhyngwladol.

Mae'r gweithgareddau a'r effeithiau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Gwnaed cynnydd o ran dwyn ADCDF i mewn i'r prif lif ar draws sectorau addysg a hyfforddiant i gynyddu'r adnoddau a'r effeithiau ar ddysgwyr.
- Mae Estyn wedi rhoi mwy o amlygrwydd i ADCDF yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd. Bydd hyn yn gweithredu fel cymhelliad arall i ddarparwyr wella ansawdd eu ADCDF.
- Mae cynlluniau i gynyddu ymgysylltiad plant a phobl ifanc ag ADCDF yn cael eu datblygu drwy gydweitho gydag Adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Dechreuwyd ar waith i edrych ar y ffordd y gall ADCDF gefnogi'r rhaglen cydlyniant cymunedol yn well ac adfywio cymunedau.
- Mae arweiniad Dealltwriaeth Gyffredin wrthi'n cael ei ddatblygu i gefnogi Dysgu Oedolion yn y Gymuned.
- Rhoddwyd cefnogaeth barhaus i Brosiect Rhwydwaith Ysgolion ADCDF am y flwyddyn academaidd ddiwethaf i weithio'n rhanbarthol ac yn lleol gydag ysgolion a chyrff yn y trydydd sector. Daeth y gwaith hwn i ben ym mis Awst o ganlyniad i newidiadau yng

nghyllid yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol. Mae gweithgarwch yn ei le wrthi'n cael ei ystyried.

- Mae APADGOS yn gweithio gyda'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol i ddatblygu prosiect dysgu byd-eang yng Nghymru.

- Mae APADGOS wedi cyllido ymchwil i effaith y Dimensiwn Rhyngwladol mewn addysg ar gyrhaeddiad dysgwyr ac effeithiolrwydd ysgol ac mae'n awr wedi ysgrifennu at yr holl ysgolion i godi ymwybyddiaeth o amrediad o ddeunyddiau i gefnogi'r gwaith hwn.

- Mae APADGOS yn parhau i ddatblygu ystod o bartneriaethau i gefnogi ac integreiddio ei ddatblygiad cynaliadwy, dinasyddiaeth fyd-eang a'i waith rhyngwladol. Mae ein cefnogaeth gyson i fentrau addysg rhyngwladol yn ceisio ychwanegu gwerth at y rheiny a gyllidir ar lefelau'r DU a'r UE, ac ar yr un pryd yn sylfaenol i ddarparu meysydd cwricwlwm allweddol yng Nghymru.

16. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hybu cyfraniadau a chyflawniadau positif gweithwyr mudol yng Nghymru i gymunedau lleol yng Nghymru.

Cafodd cyfraniad cadarnhaol gweithwyr mudol i gymunedau lleol ei hybu yn lansiad 'Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru' ym mis Rhagfyr 2009. Sefydlwyd Cronfa Cydlyniant Cymunedol ers 2009-10 sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i dderbyn cyllid tuag at gydlyniant cymunedol ac mae rhai wedi defnyddio hwn ar gyfer gweithgareddau i annog integreiddio gweithwyr mudol i mewn i gymunedau lleol.

**Cwblhawyd**.

17. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi sefydliadau sy'n gweithio i recriwtio gwirfoddolwyr o blith cymunedau mudol i weithio mewn lleoliadau cymunedol.

Yn ddiweddar rhedodd Uned y Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgyrch lwyddiannus yn y cyfryngau, "Rhoi ychydig ac ennill llawer", i godi ymwybyddiaeth o wirfoddoli ar draws y sbectrwm.

Mae'n ofynnol i holl gynlluniau grant Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n agored i'r Trydydd Sector gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido Cyrff y Trydydd Sector. Mae hwn yn annog cymdeithasau i gael holl aelodau'r gymuned i gymryd rhan mewn gwirfoddoli, gan gynnwys y rheiny sydd ar yr ymylon neu nas cyrhaeddir yn aml.

At hynny, mae meini prawf targed Cynllun Grant Gwirfoddoli yng Nghymru, sydd wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers tro ac sydd wedi

ei fwriadu i recriwtio gwirfoddolwyr newydd o grwpiau anodd eu cyrraedd, wedi cael eu hehangu i gynnwys Ceiswyr Lloches a gweithwyr mudol.

**Cwblhawyd**.

18. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hwyluso rhwydweithio rhwng sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, â'r nod o rannu arfer da.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu cyllid drwy grant Cynhwysiant ar gyfer Partneriaeth Mudo Strategol Cymru. Ar gyfer penodi Swyddog Polisi mae'r arian; un o'i swyddogaethau ef yw hwyluso grwpiau amlasiantaethol a chyfleoedd rhwydweithio er mwyn adeiladu gallu ar faterion mudo ac i gynorthwyo i gynllunio a chynnal cynadleddau, seminarau a hyfforddiant.

Sefydlodd yr Uned Cydlyniant Cymunedol dri grŵp rhanbarthol ar gyfer arweinwyr cydlyniant cymunedol Awdurdodau Lleol. Bwriad y grwpiau hyn yw rhannu arfer da gan gynnwys arfer da mewn perthynas â materion gweithwyr mudol.

**Cwblhawyd**.

19. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu 'both wybodaeth' ar y we ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol. Byddai'r wefan hon yn cyfeirio defnyddwyr at fanylion cyswllt sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, gan eu galluogi i lunio cysylltiadau a thrafod arfer da. Byddai'r wefan hefyd yn cyfeirio defnyddwyr at asiantaethau gorfodi rheoleiddiol a ffynonellau allweddol eraill lle ceir gwybodaeth ddibynadwy. Gallai'r porth hwn hefyd ddarparu dolenni i gyngor ar gyrchu gwasanaethau cyfieithu a lladmeru.

Rhydd pecyn Deall Cymru wybodaeth a chysylltiadau i gyrff rheolaethol a llywodraethol perthnasol yn y sector cyhoeddus ac mae ar gael i ymfudwyr ac i gyrff sy'n gweitho gydag ymfudwyr hefyd. Mae ar gael mewn copi caled ac ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cwblhawyd**.

20. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n trefnu digwyddiad undydd i ddathlu diwylliant ac amrywiaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar integreiddio cymunedol, yn cynnwys gweithwyr mudol.

Tynnodd lansiad y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol ym mis Rhagfyr 2009 sylw at bwysigrwydd integreiddio cymunedol. Cynhaliwyd dwy gynhadledd ym mis Mehefin 2009 (un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne

Cymru) oedd yn edrych yn ôl ar flwyddyn gyntaf y Gronfa Cydlyniant Cymunedol a sut y gellir ei defnyddio i wella integreiddio cymunedol.

**Cwblhawyd**.

21. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau datganoledig ar y rheng flaen, er mwyn galluogi mwy o ymwybyddiaeth o hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr mudol. Dylai'r hyfforddiant hwn ddarparu cyngor ymarferol ar nodi arferion anghyfreithlon, a chysylltu ag asiantaeth orfodi briodol. Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd ddarparu canllawiau ar faterion yn ymwneud ag amrywiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb sy'n gysylltiedig â rhyngweithio â gweithwyr mudol a'u teuluoedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i sicrhau bod staff mewnol yn gwybod am hawliau ymfudwyr. Mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y staff hefyd yn cael gwybod am amrywiaeth ddiwylliannol a materion cydraddoldeb. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn parhau i sicrhau bod materion ymfudwyr yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu polisi drwy Borth Polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Pecyn Offer Llunio Polisïau Cynhwysol.

Mae cyngor ymarferol a defnyddiol ar faterion o ddydd i ddydd ar gyfer ymfudwyr ar gael drwy becyn Deall Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r pecyn wedi cael derbyniad da ac roedd llawer o bobl yn bresennol yn y digwyddiad lansio.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ddatblygu'r pecyn offer ar gyfer cyflogwyr gweithwyr mudol, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac ymarferol ar hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr mudol. Pan gaiff ei gyhoeddi bydd y Pecyn Offer ar gael ledled y wlad mewn copi caled ac ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gweler hefyd yr ymateb i Argymhelliad 18 uchod.

**Cwblhawyd**.

22. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu hyfforddiant ar gyfer staff ar y rheng flaen, yn ymwneud â defnyddio gwasanaethau lladmeru ac argaeledd y gwasanaethau hyn, gan gynnwys adnoddau lleol a gwasanaethau proffesiynol.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu ar y pryd a Chyfieithu ysgrifenedig (WITS) yn awr yn gwbl weithredol ac fe lansiais y Gwasanaeth hwn yn swyddogol ym mis Hydref 2010.

Mae WITS hefyd yn ategu Prosiect Hyfforddi Cyfieithwyr ar y Pryd Prifysgol Caerdydd. Mae'r prosiect hwn yn ceisio cynnig y cyfle i unigolion dwyieithog yn Ne Cymru i dderbyn hyfforddiant yn lleol i'w galluogi i ennill cymhwyster Cyfieithu ar y Pryd yn y Gwasanaeth Cyhoeddus. Ei nod yw cynyddu nifer y cyfieithwyr ar y pryd cymwysedig, o fewn y cymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig yng Nghaerdydd, y sector gwirfoddol lleol a'r darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector cyhoeddus, er mwyn gwella mynediad i bobl sy'n methu â chyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg at y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r prosiect hwn yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd angen cyfanswm o £209,000 i redeg peilot WITS. Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £120,000 o'r cyllid ar gyfer 2009/2010. Defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gostau cychwynnol.

**Cwblhawyd**.

23. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cychwyn trafodaeth â Llywodraeth y DU i hybu darparu hyfforddiant tebyg i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Argymhellion 21 a 22 i wasanaethau ar y rheng flaen sy'n atebol i Lywodraeth y DU.

Mae gan Lywodraeth y DU raglenni hyfforddi eisoes wedi eu sefydlu ar gael i staff sy'n gweithio yn ei gwasanaethau rheng flaen. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod hyfforddiant i staff mewnol yn adlewyrchu materion ymfudwyr ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant mewnol i staff sy'n gweithio ar y rheng flaen yn adlewyrchu hyn drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru ddatblygu a chyhoeddi un cynllun ar gyfer rhyw, hil ac anabledd ynghyd â chred, oedran a thuedd rywiol. Nid yw pobl o angenrheidrwydd yn ffitio i mewn 'i un blwch' megis merched duon anabl, a gall gwahaniaethu fod yn amlwg ar lawer o lefelau.

Trwy greu cynllun cydraddoldeb sengl, nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw mynd i'r afael â nifer o anghyfartaleddau. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl wedi annog gweithio traws-linynnol a thraws-bortffolio, megis y gwaith a gyflawnwyd ar y mesur tlodi plant, ac mae hyn wedi sicrhau bod y dinesydd yn cael ei ystyried fel person cyfan. Rhan bwysig o'r cynllun fu sicrhau ein bod yn hybu tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas yn ein gwaith, ac mae hyn wedi ymestyn y tu hwnt i'r llinynnau cydraddoldeb hynny. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn rhedeg o fis Ebrill 2009 hyd fis Mawrth 2012.

"Llunio Polisïau Cynhwysol" (LlPC) yw model Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb. Mae'n sicrhau bod anghenion amrywiol dinasyddion a'u cymunedau yng Nghymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ymgymryd â pholisïau ac arferion Llywodraeth Cynulliad

Cymru. Polisïau ac arferion yw'r swyddogaethau, neu'r gweithgareddau, sy'n cael eu cyflawni'n ddyddiol gan y llywodraeth.

**Cwblhawyd.**

24. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi staff ar y rheng flaen sy'n atebol i awdurdodau lleol i gael hyfforddiant tebyg i'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Argymhellion 21 a 22.

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gan yr ystyrid mai mater i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei ddatblygu ydoedd.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

25. Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac asiantaethau eraill, yn mapio'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd, i benderfynu pa wybodaeth bellach sydd angen ei chasglu i gadarnhau nifer y gweithwyr mudol, a'u teuluoedd, yng Nghymru. Yna gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i asiantaethau ar y rheng flaen gasglu gwybodaeth y dynodir ei bod yn ofynnol, a chyflwyno achos i Lywodraeth y DU dros hwythau'n gofyn am wybodaeth debyg. Byddai hyn yn galluogi casglu data priodol i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio darpariaeth eu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae angen cael mynediad at ffynonellau data y gellir eu diweddaru'n gyson. Mae pob darn o ymchwil untro yn mynd yn hen yn fuan, er ei fod yn werthfawr i'n cynorthwyo i ddeall y materion sylfaenol.

Cyflwynwyd dadansoddiad cychwynnol o ddata, a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan Gyngor ar Bopeth Cymru, i gyfarfod Fforwm yr Ymfudwyr ar 30 Medi 2010. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad o ymholiadau, e.e. materion cyflogaeth, lle roedd *Tâl a Haeddiant* a *Gwahaniaethu* yn ddau gategori oedd o bwys neilltuol i weithwyr nad oeddent yn Brydeinwyr (29% ac 11% o'u hymholiadau ynghylch gwaith, o gymharu â 19% a 4% i bobl Brydeinig).

Cyflwynir adroddiad llawn am y dadansoddiad yng nghyfarfod Fforwm yr Ymfudwyr ar 24 Mawrth 2011.

Cyhoeddi:

***Mesur Effaith Gymdeithasol Mudo ar Lefel Awdurdod Lleol***
(http://Cymru.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/miglalevel/?lang=en)

Mae Pennod 7, "Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â datblygu gwell gwybodaeth am weithwyr mudol", yn cynnwys awgrymiadau penodol ar gyfer defnyddio setiau data gweinyddiaeth leol, megis cofrestriadau

pobl dramor newydd gyda meddygon teulu, a data Cyfrifiad Ysgol/ Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig, ochr yn ochr â'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr, Rhifau Yswiriant Gwladol ar gyfer data pobl dramor, er mwyn cynhyrchu gwell amcangyfrifon o niferoedd, a chenedl, gweithwyr mudol ar lefel yr Awdurdod Lleol.